

ADNODDAU ADDOLI

- **Cewch oedfa trwy ddarllediad ar wefan www.youtube.com am 10.30 bob bore Sul.** Mae'r cyswllt i'ch cyfeirio i'r dudalen briodol yn ymddangos ar dudalen flaen gwefan www.eglwysibroaled.com (Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)
- **Mae DVD ar gael i'r rhai sy'n dymuno gwyllo a gwrando ar recordiad o'r gwasanaeth.** Os hoffech gael DVD, rhowch wybod i Mair.
- **Mae CD ar gael i'r rhai sy'n dymuno gwrando ar recordiad sain o'r gwasanaeth.** Os hoffech gael CD, rhowch wybod i Mair.
- **Mae taflen o'r gwasanaeth ar gael i chi ei ddarllen.** Os hoffech dderbyn copi papur o'r gwasanaeth, rhowch wybod i Mair. Cofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy o faint.
- **Gwasanaeth ffôn rhad ac am ddim.** Gallwch wrando unrhyw bryd ar oedfa gyfan sydd wedi'i recordio gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru trwy ffonio 02920 101564, ac yna pwyso '1' i gael y gwasanaeth Cymraeg. Bydd y cynnwys yn cael ei newid unwaith yr wythnos, fel arfer ar ddydd Iau.
- **Ysgol Sul ar-lein.** Mae Andras a Heledd Iago, Bro Dinbych yn cynnal ysgol Sul ar Zoom am 10.30 ar fore Sul. Ewch i dudalen Facebook Bro Dinbych er mwyn ymuno â nhw.

ADNODDAU DYSGU

- **Ar gyfer rhieni plant, mae gwersi ysgol Sul ar gael dros ebost.** Cysylltwch â Rhodri.
- **Ar gyfer yr oedolion, mae taflenni cwestiwn ac ateb ar gael ar ebost neu ar bapur.** Cysylltwch â Mair os hoffech gael copi (ar bapur neu ar ebost) a chofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy.

Cewch adnoddau eraill ar wefan www.gair.cymru neu hwyrach y bydd gwefan www.holi-cymru.org o ddiddordeb i chi.

LLAIS BRO ALED

Bydd Llais Bro Aled yn parhau i gael ei gyhoeddi bob pythefnos. Cofiwch adael i ni wybod am unrhyw un sydd mewn profedigaeth, yn yr ysbyty neu ar achlysur dathliad arbennig.

BUGEILIOL

Dim ond mewn amgylchiadau argyfyngus mae ymweliadau bugeiliol wyneb yn wyneb yn digwydd bellach. Ond wrth gwrs, mae gofal bugeiliol yn parhau trwy gyfrwng y ffôn. Cofiwch hefyd bod cyd-aelodau, blaenoriaid, Rhodri a Mair yn barod iawn i sgwrsio hefo chi os ydych chi dymuno'n ffonio ni.

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 31 Mai 2020

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Cofion cynnes at bawb o ddarllenwyr Llais Bro Aled lle bynnag yr ydych. Wrth i ni barhau i wynebu ansicrwydd a gofid y cyfnod hwn, ac wrth i'w effaith dorcalonnu ddod yn amlycach yn ein cymunedau, gweddiwn yn daer am gymorth Duw gan gofio geiriau'r Salmydd – 'Un tlawd ac anghenus wyf fi, ond y mae'r Arglwydd yn meddwl amdanaf. Ti yw fy nghymorth a'm gwaredydd; fy Nuw, paid ag oedi!' (Salm 40:17)

Gan anwybyddu'r holl hanesion gwleidyddol sydd wedi codi'n ddiweddar ynglŷn ag unigolion dylanwadol, y cwestiwn mawr i lawer o bobl ar hyn o bryd yw sut fydd y dyfodol yn edrych? Pryd, os o gwbl, fydd yna ddychwelyd at y cyfarwydd? Neu oes rhaid i ni ddod i delerau hefo ffyrdd tra gwahanol o fyw ac ymwneud â'n gilydd am fisoedd neu hyd yn oed flynyddoedd? Beth fydd y 'normal newydd' i'n cymunedau ni tybed? Does neb yn gwybod yn iawn, dim hyd yn oed arbenigwyr gwyddonol, ond ni ddylai hynny arwain yn anorfod at anobaith – yn enwedig felly i Gristnogion sydd wedi cael eu geni o'r newydd i 'obaith bywiol trwy atgyfodiad Iesu Grist' (1 Pedr 1:3).

Rydym yn byw mewn byd sydd wastad yn newid, ac rydym ninnau'n newid hefyd – boed ni'n barod i gyfaddef hynny neu beidio! Byddwn yn newid yn gorfforol wrth i amser basio, a bydd amgylchiadau'n effeithio arnom mewn amrywiol ffyrdd. Mae hynny'n wir i bawb o'r ddynol ryw, ac mae'r newidiadau hyn yn gallu bod yn niweidiol ac yn boenus. Ond dylai Cristnogion fod yn disgwyl ac yn dyheu am newid, a hwnnw'n newid er gwell, ynom ni ac yn y byd. Nid ffydd statig yw'r ffydd Gristnogol, ond perthynas fywiol â'r Arglwydd Iesu trwy'r Ysbryd Glân, lle mae adnewyddu a thrawsffurfio yn cael ei annog (Rhufeiniaid 12:2). Wrth i ni dyfu yn ein hadnabyddiaeth a'n parodrwydd i ufuddhau i Dduw, bydd yr Ysbryd yn ein cynorthwyo i weld o'r newydd hyfrydwch Iesu Grist fel Gwaredwr ac mor ffiائد yw pechod ac anghyfiawnder – ynom ni ac yn y byd. Ond nid dim ond newid mewnol yr ydym yn dyheu amdano, ond newid ar ein daear hefyd. Dyna pam yr ydym yn gweddio yng ngweddi'r Arglwydd: 'deled dy deyrnas; gwneler dy ewyllys, ar y ddaear fel yn y nef.'

Felly o ystyried y dyddiau dyrys yr ydym yn ei wynebu a'r 'normal newydd' sydd o'n blaenau, beth am i ni ddiolch i Dduw bod bywyd newydd yn realiti am byth i'r rhai sydd wedi ymddiried yng Nghrist, a bod 'drws trugaredd heb ei gau'.

Rhodri

Cofion a Chydymdeimlad

Yn fuan wedi i ni gyhoeddi y rhifyn diwethaf o Llais Bro Aled fe ddaeth y newyddion trist am farwolaeth Mrs Gwyneth Rawson (Llanfair Talhaiarn). Roedd Gwyneth yn gymeriad unigryw, yn hoff o fod yn brysur a phob amser yn barod ei chymwynas. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i dwy ferch, Dotwen Roberts (Llansannan) a Iona, ynghyd â'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain arbennig. Gweddïwn y byddan nhw fel teulu, ynghyd â phawb arall sy'n galaru am anwyliaid, yn profi Duw yn ddigon y dyddiau hyn.

Anfonwn ein cofion hefyd at Falmai Evans (Saron) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd. Dymunwn wellhad buan iawn iddi hi ac i Eirlys Owen (Llanefydd) sydd bellach yn cael gofal yn Ysbyty Llandudno. Gweddïwn y bydd y ddwy yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal ac yn eu hiacháu. Cyflwynwn bawb sydd mewn angen heddiw i ofal Duw, gan weddio y byddant yn adnabod Ei gariad yn eu hamgylchynu.

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych chi angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Y Goleuad

Papur newydd wythnosol Eglwys Bresbyteraidd Cymru yw 'Y Goleuad'. Mae'n cynnwys newyddion o'r eglwys yn ogystal ag erthyglau am Gristnogaeth yng Nghymru, tudalen ar gyfer pobl ifanc, eitemau o'r archif a mwy a'r Golygydd yw'r Parchedig Ddr Watcyn James. Erbyn hyn, mae'n cael ei gyhoeddi fel fersiwn digidol ar wefan EBC ac mae'r rhifyn diweddaraf yn ymddangos bob dydd Mawrth. Gallwch ei ddarllen neu ei argraffu ar ffurf ffeil PDF trwy fynd i wefan: www.ebcpcw.cymru/cy/cyhoeddiadau/goleuad.

Adnoddau

Cofiwch gysylltu os hoffech dderbyn unrhyw rai o'r adnoddau Cristnogol a restrir trosodd sy'n cael eu darparu ar eich cyfer yn yr Ofalaeth. Da clywed bod nifer ohonoch yn cael bendith trwy'r ddarpariaeth yma.

Yn yr un modd, os oes mwy ohonoch erbyn hyn yn defnyddio e-bost a'ch bod yn awyddus inni anfon Llais Bro Aled ac unrhyw wybodaeth neu adnoddau eraill ar e-bost, wnewch chi anfon neges i mair@eglwysibroaled.com, os gwelwch yn dda?

Helpu eraill

Diolch o galon i chi am eich cyfraniadau ariannol hael i'r gwahanol elusennau yn ddiweddar. Gwn eu bod yn gwerthfawrogi ein cefnogaeth yn fawr iawn. Wrth gwrs, mae croeso i chi roi rhodd ariannol i'r elusennau hyn unrhyw bryd gan nad yw'r angen, yn anffodus, yn dod i ben.

Os ydych chi am gyfrannu trwy'r Ofalaeth, mae croeso i chi anfon siec i Mair yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled', ac fe wnawn ninnau dalu'r arian dros y we ar eich rhan. **Cofiwch nodi enw'r elusen y dymunwch ei chefnogi ar gefn y siec, os gwelwch yn dda.**

Baby Basics

Dyffryn Clwyd

Er bod Baby Basics Dyffryn Clwyd hefyd yn gwerthfawrogi rhoddion ariannol, hwyrach bod eraill ohonoch yn dymuno cyfrannu mewn ffordd arall. Os ydych chi'n hoffi gweu neu wnïo, maen nhw wrth eu bodd yn medru cynnwys yn y basgedi Moses eitemau sydd wedi eu gwneud â llaw, neu os oes gennych ddrillad neu eitemau babi i'w cyfrannu, mi fydden nhw'n falch iawn o'u derbyn.

Gallwch ffonio 07517 660155 neu anfon ebost i babybasicsdyffrynclwyd@gmail.com i drefnu eu casglu.



Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

(Mair Owen, Bryn Goleu, Llansannan, Dinbych LL16 5LF)

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (10^{fed}), os gwelwch yn dda.